Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 31 Mai 2016

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, A. Williams, D. James, D. Williams,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (Clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	E. Parry, Mervyn Jones, S. Edwards, H. Huws, B. Jones, Clerc i gadarnhau pryd fynychodd E. Parry gyfarfod diwethaf	Clerc	28/06/16
2.0	**Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd**		
	A. Jones yn diolch am y profiad a'r cymorth tra buodd yn Gadeirydd. Cynigwyd gan A. Jones fod A. Mummery yn cymryd y Gadair, eiliwyd gan J. Roberts a chytunwyd yn unfrydol. Derbyniodd A. Mummery y swydd a diolchodd i A. Jones am ei wasanaeth fel Cadeirydd Cynigwyd J. Roberts yn Is Gadeirydd gan Meirion Jones, eiliwyd gan G. Parry. Cytunwyd yn unfrydol a derbyniwyd gan J. Roberts.		
3.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
4.0	**Cyfrifon Mis Mai 2016**		
4.1	Clerc I drefnu cyfarfod gyda Scottish Power I drafod defnydd trydan yn y Neuadd Snwcer.		
4.2	J. Roberts yn Cynnig, D. James yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon fel y rhai cywir.		
5.0	**Materion y Cyngor Sir**		
5.1	Meirion Jones wedi bod mewn cyfarfod ynglŷn â Llyfrgell Porthaethwy. Nodwyd bod grŵp llywio wedi'i sefydlu gyda J. Roberts yn aelod. Cyfarfod wedi'i drefnu am y 06 Mehefin 2016.		
5.2	Meirion Jones yn cadarnhau fod safle Penhesgyn wedi eu gadarnhau fel y safle parhaol i deithwyr.		
5.3	A. Mummery yn nodi ei fod wedi trafod marcio'r safle anabl yn y Maes Parcio gydag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ac maen nhw am edrych i drefnu'r gwaith.		
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26 Ebrill 2016**		
6.1	J. Roberts yn cynnig, D. James yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi**		
7.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
7.2	Plac ar dy Kyffin Williams -Meirion Jones wedi derbyn llun o'r un sydd yn Llangefni, angen paratoi un eithaf tebyg. Meirion am baratoi templed.	**Meirion Jones**	**28/06/16**
7.3	Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond dim y llwybr beicio. CSYM am alw allan i edrych arno.	**D. Owen**	**28/06/16**
7.4	Ty Stesion Pringles - Clerc wedi ysgrifennu at Pringles, dim ymateb wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Clerc i ddilyn i fyny	**D. Owen**	**28/06/16**
7.5	Grant memorials fund - Cytunwyd i ofyn i Peter Llewelyn am gyngor ar y gwaith yn gyntaf.	**A. Jones**	**28/06/16**
7.6	Biniau Baw Ci - Meirion Jones yn nodi ei fod yn broblem barhaol, ac mae am ysgrifennu at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ailedrych ar y gwasanaeth ac am gopïo'r clerc a G.C. Jones I mewn. Clerc wedyn i'w yrru ymlaen at Unllais a Fforwm Cyswllt Ynys Môn yn gofyn iddynt drafod y mater.	**Meirion Jones**	**28/06/16**
7.7	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - S. Edwards wedi siarad gyda B. Jones, nodi fod ffrindiau'r parc a'r gors dal yn bodoli. S. Edwards am dderbyn rhestr o grantiau	**S. Edwards**	**28/06/16**

	ganddynt.		
7.8	Cyflwr y Maes Chwarae - Nodwyd fod dal lot o sbwriel yn hel ar y safle'r Maes Chwarae a Maes Aml Bwrpas. Clerc i ofyn i Adran Rheoli Gwastraff CSYM pwy sydd yn mynd ogwmas yn casglu sbwriel ganddynt.	**D. Owen**	**28/06/16**
7.9	Cynllun Iaith y Cyngor Bro - Meirion Jones yn nodi fod y Cyngor Sir wedi cymeradwyo Polisi Iaith newydd, a bod copi ar gael ar y wefan. D. James am gael edrychiad arno a chynnig adolygiadau a newidiadau I Gynllun Iaith y Cyngor Bro ym Mis Gorffennaf.	**D. James**	**26/07/16**
7.10	System ailgylchu dŵr glaw yng nghlwb bowlio - Nodwyd fod y system wedi i'w rhoi yn ei lle ac yn gweithio. Clerc I gwblhau ffurflen ar gyfer cael disgownt gan Dwr Cymru.	**D. Owen**	**28/06/16**
8.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Neuadd Goffa 10 Mai 2016**		
8.1	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
9.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
9.1	Nodwyd fod gwaith grant yr Hwb Cymunedol yn parhau		
10.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Meysydd Chwarae 10 Mai 2016**		
10.1	Nodwyd fod dim cyfarfod wedi cynnal gan fod dim cworwm yn bresennol		
11.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
11.1	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery yn nodi ei fod yn disgwyl cael pris i drwsio'r ffens	**A. Mummery**	
11.2	Maes Amlbwrpas - Clerc I drefnu hysbyseb ym Mhapur Menai ym Mis Medi	**D. Owen**	**Medi**
12.0	**Cais am fenthyciad gan y Clwb Bowlio**		
12.1	A. Jones, A Mummery a G. Parry yn datgan diddordeb ac yn mynd allan. A. Williams yn cynnig, D. James yn eilio i roi benthyciad o £500 fel yr ofynnwyd, yn amodol ar gytundeb o'r telerau canlynol: Talu yn ôl £50 y mis, Taliadau I gychwyn o'r ôl dau fis, Taliad llawn i'w wneud o fewn 12 mis, neu ynghynt, Benthyciad yn ddi-log os mae'n cael ei dalu yn ôl o fewn 12 mis. Clerc I ddrafftio cytundeb ffurfiol	**D .Owen**	**28/06/16**
13.0	**Cyflwyno Awdit Mewnol**		
13.1	Nodwyd fod yr Awdit heb ei gwblhau erbyn dyddiad y cyfarfod. Awdit I'w gymeradwyo gan y Cyngor Bro ar o lei dderbyn yn ol.		
14.0	**Cyfle posib i redeg toiledau cyhoeddus o Ebrill 2017**		
	Clerc I wneud ymholiadau i gadarnhau pwy sydd yn berchen y tir ac adeilad y toiled cyhoeddus yn Llanfair	**D. Owen**	**28/06/16**
15.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
15.1	31C122A - Cais llawn ar gyfer dymchwel modurdy ac ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn 14 Stad Tŷ Croes, Llanfairpwll - Dim gwrthwynebiad cyn belled â bod dim effaith ar drigolion lleol		
15.2	31C433 - Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ol ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger 20 Collen Wen, Llanfairpwll - Dim sylw		
16.0	**Gohebiaeth**		
16.1	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
16.2	Dan do Mon - Cylchgrawn - Derbyn y wybodaeth		
16.3	Clerks & Council's Direct - Cylchgrawn - Derbyn y wybodaeth		
16.4	Caeau Canmlwyddiant - llythyr - Rhoi I bwyllgor Meysydd Chwarae		
16.5	Grid Cenedlaethol - Ymgynghoriad arfaethedig ar arolygiaeth gynllunio - Derbyn y wybodaeth		
16.6	Cyngor Sir - Rhybudd etholiad - Rhoi ar yr hysbysfwrdd		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Mehefin 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad